

Grŵp Cyswilt Cymunedol Twyn Hywel – 3 Medi 2025

Presenoldeb:

- Catryn Newton – Cyfarwyddwr Buddsoddiad Cymunedol a Chyfathrebu, Bute Energy
- Eluned Lewis – Rheolwr Buddsoddi Cymunedol, Bute Energy
- James Green – Arweinydd Mapio Cymdeithasol, Monitro, Gwerthuso & Dysgu, Bute Energy
- Richard Lawrence – Arweinydd Iechyd a Hamdden, Bute Energy
- Rhys Talyor – Rheolwr Materion Allanol, Bute Energy
- Charlotte Bishop – Cynghorydd Sir
- Alan Angel – Cynghorydd Sir
- John Taylor – Cynghorydd Sir
- Sean Morgan – Cynghorydd Sir
- Hywel Goronw – Cynghorydd Sir
- Kim Allen – Cyngor Cymuned Nelson
- Colin Mann – Cyngor Cymuned Llanbradach and Pwll-y-pant
- Judith Prichard – Cyngor Cymuned Gelli Gaer
- Richard Gater – Cyngor Cymuned Aber Valley
- Rhian Hartwell – Wedi ymuno gyda Hywel Goronw
- Elwyn Evans – Aber Valley YMCA
- David Jenkins – Aber Valley YMCA
- Dave Brunton – Partneriaeth Cymunedau Cwm Aber
- Alison Palmer – GAVO

1. Croeso a chyflwyniadau

- Agorodd Catryn y cyfarfod drwy fynegi cydymdeimlad am farwolaeth drist Hefin David AS. Roedd Hefin wedi cyflwyno hi ac aelodau staff eraill yn Bute i lawer o grwpiau a mentrau ac roedd e bob amser yn hapus i hyrwyddo mentrau lleol a chefnogi datblygiad cronfa budd cymunedol ar gyfer y gymuned leol.
- Cafwyd cyflwyniad i'r rhai oedd yn bresennol

2. Trosolwg o Bute Energy, llinell amser presenol

- Rhoddodd Catryn drosolwg o Bute Energy fel datblygwr a diweddariad ar yr amserlen presenol.

- Catryn yn rhoi diweddariad prosiect ar waith ymchwilio tir sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd, mae hyn i wirio ardaloedd nad oeddent yn y cynllun cychwynnol; mae tîm y prosiect hefyd yn cyflawni amodau gan PEDW cyn adeiladu. Mae Parc Ynni Twyn Hywel yn cadw at yr amserlen am benderfyniad buddsoddi terfynol eleni a'r adeiladu ar gyfer dechrau 2026. Mae Bute Energy hefyd yn mynd i gyhoeddi contractwyr haen 1 eleni. Roedd yr ymatebion tendr yn gryf gan gynnwys isgontractwyr ac ymrwymadau gwerth cymdeithasol gyda grwpiau trydydd sector lleol.
- Y cyfraniad economaidd-gymdeithasol (sleid gyfeirio 2); roedd cais am ragor o wybodaeth am y ffigurau a chytunwyd i rannu'r dec sleidiau. Mae Catryn yn cadarnhau y bydd ymdrechion gorau yn cael eu gwneud i sicrhau bod y buddsoddiad yn aros yng Nghymru er budd cymunedau Cymru; manylion am y 2% o'r holl gontractau sydd wedi'u neilltuo i werth cymdeithasol (pro-bono ac arian parod), a fydd yn seiliedig ar le.
- Cwestiwn ar amserlen penodi contractau a chadarnhaodd Catryn fod y tendrau'n dal i gael eu gwerthuso ar gyfer y prif gontractwr y safle a'i fod rhwng tri, Knights Brown, Jones Brothers ac RJ Mcleod.
- Cwestiwn ar y cysylltiad â'r Grid Cenedlaethol ac atebion Catryn ar amodau rhyddhau.
- Cwestiwn ar drydan rhatach sydd ar gael i gymunedau drwy'r prosiect – atebodd Catryn fod 25% o brosiectau ynni cymunedol a'r astudiaeth ddichonoldeb sy'n digwydd ar hyn o bryd, a fyddai'n ased cynhyrchu incwm/ynni.
- Mae Catryn yn manylu ar y gwanahinaeth rhwng dulliau prosiectau ynni a rennir, a dull Bute Energy i'r gymuned.
- Cwestiwn a oedd y £5 miliwn a ddyfynnwyd gan Catryn ar gyfer prosiectau ynni cymunedol ar gyfer Cymru gyfan. Eglurodd Catryn ydy, ei fod ar draws y portffolio.
- Mae Catryn yn siarad am fapio cymdeithasol a'r dulliau seiliedig ar le: beth yw cenhadaeth sefydliadau lleol, beth yw'r heriau, a ble mae'r dyheadau. Manylion pellach ar fethodoleg KUMU a'r heriau cymdeithasol sydd fwyaf cyffredin. Nid oes unrhyw dybiaethau ynghylch yr hyn sydd ei angen, mae'n seiliedig ar ddata ac anghenion gwirioneddol y cymunedau, mapio'r sefydliadau a ffocws ar y prosiectau etifeddiaeth a all wneud gwahaniaeth.
- Roedd cwestiwn ynghylch a oeddem wedi mapio ac ymrwymo i ddiogelu safleoedd treftadaeth ar safle'r comin / parc ynni. Eglurodd Eluned ein bod wedi gwneud hynny a'i fod yn y cais cynllunio. Rhoddodd eglurder hefyd fod archaeoleg Wessex wedi datblygu fframwaith diwylliannol ar gyfer y safle a bod cyfle i werthu'r straeon diwylliannol yn wirioneddol a'u defnyddio fel ffordd o ymgysylltu â chymunedau.
- Cwestiwn pellach ar y pryder ar rai aelodau o'r cyhoedd sy'n fandaleiddio ardaloedd o'r comin. Rhoddodd Catryn fanylion am y gwaith o amgylch y Cynllun Hamdden a'r Cynllun Treftadaeth Ddiwylliannol a sut y gellid bwydo hyn yn ôl i'r grŵp lleol.
- Cwestiwn: a oes lle i arolygon digidol dargedu demograffig ehangach i gyfrannu at y broses fapio. Mae Rhys yn egluro'r platfform Give My View

a sut mae'n targedu demograffeg leol ac yn ymgysylltu mewn ffordd sy'n fwy seiliedig ar ganlyniadau nag arolwg 'diflas'.

- Sylw na fydd y Grŵp Cyfathrebu Cymunedol yn gwybod ble mae'r bylchau yn y mapio cymdeithasol oni bai ein bod yn dweud wrthyn nhw beth sydd eisoes wedi'i nodi. Cytunwyd i ddarparu manylion am y gwaith mapio cymdeithasol a wnaed hyd yn hyn.

3. Eluned - Cronfa Budd Cymunedol a swyddogaeth arfaethedig y Grŵp Cyswllt Cymunedol (GCC).

- Mae'r GCC hwn yn grŵp gyda dau swyddogaeth:
 - 1) Mae'r GCC yn gyfrwng dwyffordd i ddiweddarau a rhannu gwybodaeth am ddatblygiad Parc Ynni Twyn Hywel.
 - 2) Sut mae'r ardal ddaearyddol hon o gymunedau sy'n gymdogion i'r parc ynni yn dod ynghyd i drafod gweithredu'r cronfa budd cymunedol. Y cymunedau hyn yw Nelson, Cwm Aber, Llanbradach, Cilfynydd a Gelligaer. Mae Eluned yn annog y grŵp i ystyried a oes angen is-grwpiau thematig ac i ystyried sut rydym yn llunio'r panel lleol ar gyfer cronfa PowerUp.
- Mae Eluned yn rhannu amcanion arfaethedig y GCC (sleid 6).
- Mae Eluned yn manylu ar y broses aelodaeth ac yn cydnabod yr angen am faint y gellir ei reoli ar gyfer hyn, a'r awydd i symud hyn i broses ffurfiol (sleid 7).
- Mae Eluned yn rhannu cyfansoddiad awgrymedig y GCC (sleid 8). Mae Catryn yn gofyn i'r grŵp a oedd unrhyw un ar goll o'r rhestr gyfansoddiad.
- Nodwyd bod Cilfynydd yng Nghyngor Tref RCT a Phontypridd. Cred y byddai'n decach cael x2 gynrychiolydd, person ychwanegol o Gyngor Tref Pontypridd, ac ychwanegu clwb busnes RCT.
- Roedd pryder nad oedd unrhyw gynrychiolwyr preswylwyr. A allem agor y drws i breswylwyr fel model cyngor cymuned? Cytunwyd i weithredu polisi drws agored.
- Gofynnwyd a ddylai'r CLG gael ei leoli yn YMCA Abertridwr neu a ddylai symud o gwmpas? Cytunwyd i symud lleoliadau cyfarfodydd y CLG ac edrych i'w wneud ar gael ar-lein hefyd. Cytunodd Catryn i edrych ar gostau technoleg addas i alluogi hyn. Ychwanegodd Eluned hefyd y byddai cofnodion cyfarfodydd y CLG yn cael eu dosbarthu yn gyntaf er mwyn sicrhau cywirdeb ac yna'n cael eu cyhoeddi trwy wefan Bute Energy gan ddangos tryloywder gan hynny. Rhannodd Rhys fanylion am archwilio diweddariadau rheolaidd ar gyfathrebu trwy lythyrau, er enghraifft, ond efallai bod offer mwy priodol y gallem eu defnyddio.
- A oedd unrhyw le i grŵp pobl ifanc, cydnabyddiaeth bod hyn yn ticio llawer o flychau gwleidyddol a chydabyddiaeth bod y demograffeg fel arfer yn ymwneud yn fwy â phobl hŷn. Cytunwyd cynnal sesiwn yn benodol ar gyfer pobl ifanc. Nododd Fforwm Ieuenctid Caerffili yn benodol mai un o'u pwyntiau gweithredu oedd yr amgylchedd.
- Cafwyd trafodaeth ynghylch yr angen am gadeirydd a chytunwyd y byddai aelodau tîm Bute Energy yn cadeirio'r cyfarfodydd am y tro.

4. Manylion ar y dull ariannu budd cymunedol

- Rhoddodd Eluned fanylion am gronfa Power Up a'r cyfleoedd i'r cymunedau lleol. Mae Bute Energy wedi lansio'r ymgyrch genedlaethol ar gyfer ymddiriedolwyr ac yn sefydlu'r CIO cenedlaethol a fydd yn rheoli'r arian o barciau ynni Bute Energy. Rydym yn chwilio am bedwar ymddiriedolwr i gyd ac mae'r ffenestr ymgeisio ar agor tan 12 Medi. Mae Catryn yn egluro bod Bute Energy yn chwilio am arweinwyr yn y Trydydd Sector sydd wedi gwneud gwahaniaeth. Aeth Eluned ymlaen i esbonio bod panel lleol o dan y prif CIO cenedlaethol sy'n ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r gwaith yn ardaloedd y parciau ynni lleol i ddatblygu a chefnogi ceisiadau prosiect. Mae Bute Energy yn chwilio am fewnbnw thematig (5 thema tîm buddsoddi cymunedol Bute Energy). Mae Bute Energy eisiau gwybod pa themâu sy'n cael eu hymrwymo iddynt.
- Roedd cefnogaeth i weithdai thema a fyddai'n annog pobl a grwpiau nad ydynt fel arfer yn dod i gyfarfodydd cymunedol i fynychu. Cynigiodd Eluned y byddai cynllun drafft o weithdai yn barod ar gyfer y cyfarfod nesaf.
- Cwestiwn ynghylch pa niferoedd yr ydym yn edrych arnynt ar gyfer y panel lleol. Mae Eluned yn ateb 8-12. Cytunwyd bod angen i'r ymrwymïadau a ddisgwylir gan aelodau'r panel lleol fod yn glir, a bod angen i'r broses adborth fod yn hyblyg.
- Mae aelod yn pwysleisio bod gwahanol ardaloedd yn cael eu heffeithio gan wahanol symiau. Er enghraifft, gall agosrwydd at y parc ynni fod yn wahanol i'r rhai ymhellach i ffwrdd a allai weld y tyrbinau. Mae'r aelod yn cyfeirio at waith Hefin David ar sicrhau bod Gelligaer yn cael ei gydnabod oherwydd yr effaith weledol, a'r effaith ar Nelson yn ystod y gwaith adeiladu. Mae'r aelod yn cefnogi'r egwyddor o rannu'r arian allan a'r gwerth i'r cymunedau hyn. Awgrymwyd bod Bute Energy yn trefnu taith o amgylch gwahanol gymunedau i egluro'r effaith ar draws ardaloedd. Mae Catryn ac Eluned yn cytuno bod hwn yn ddull da, gan gynnwys y cyfle i harneisio gwahanol offer i ddangos yr effaith weledol. Mae aelod yn tynnu sylw at yr effaith glywadwy y mae rhai cymunedau yn ei hwynebu, a nodwyd hefyd.
- Adroddodd Eluned y byddai swm cynnar o 20% o gronfa budd cymunedol y flwyddyn gyntaf ar gael ar ddechrau'r gwaith adeiladu yn Twyn Hywel, sef o ddechrau 2026 ymlaen. Mae Catryn yn egluro mai'r rhesymeg dros ryddhau cynnar yw sicrhau bod cymunedau sy'n cael eu heffeithio gan y gwaith adeiladu yn cael blaenoriaeth wrth gael mynediad at y cronfeydd rhyddhau cynnar, felly yn yr achos hwn roedd ffocws penodol ar Nelson. Roedd pawb yn cefnogi'r dull hwn ac yn cydnabod bod Nelson wedi'i effeithio'n arbennig gan y llwybr trafnidiaeth.
- Mae Catryn yn egluro y bydd grantiau'n cael eu dyfarnu ar sail cryfder ceisiadau ond y byddem yn monitro dosbarthiad yr arian i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddosbarthu'n gyfartal.
- Mae aelod yn tynnu sylw at themâu cyffredin ledled y rhanbarth, h.y. ynni solar ar ysgolion. Byddai hyn yn lliniaru dadl leol bosibl ac yn ymddangos yn fwy cyfartal yn y dosbarthiad.
- Mae aelod yn tynnu sylw at fod arbenigedd ar draws cymunedau, a gall pob cymuned gefnogi ei gilydd i gydweithio, gan sicrhau bod trosglwyddo sgiliau ac arbenigedd.
- Mae'r cyfle i fuddsoddi yn y tymor hir yn bwysig, gallai hyn lliniaru'r 'ymladd rhwng pobl' gan y gall pobl adeiladu cynigion mwy a dyheadau tymor hir.

- Mae aelod yn nodi bod cynaliadwyedd hefyd yn bwysig, er enghraifft costau rhedeg yr YMCA. Mae Catryn yn cadarnhau y bydd y Gronfa Buddiannau Cymunedol yn ariannu costau cyffredinol.
- Mae aelod yn cydnabod yr argyfwng costau byw a heriau costau prifysgol, a oes cyfleoedd bwrsariaeth i bobl ifanc. Atebodd Catryn ie a chyfeiriodd at astudiaeth achos o gronfa buddiannau cymunedol yng Ngogledd Cymru. A phwysigrwydd cadw pobl a sgiliau Cymru yng Nghymru.
- Mae aelod yn sôn am drosglwyddiadau asedau cymunedol llyfrgelloedd lleol a'r angen i ddarparu adnoddau ar gyfer y rhain. Mae Catryn yn ateb bod hwn yn gyfle i ryddhau'r asedau'n gynnar.
- Mae aelod yn cyfeirio at ymweliad â Threherbert, yn benodol y prosiect Croeso i'n Coedwigoedd a'r cyfleoedd cynaliadwy a allai fod ar gael ar gyfer model tebyg a'r broses o gynhyrchu refeniw. Mae angen i'r ardal feddwl am y peth hwn fel buddsoddiad, h.y. mewn arian parod, swyddi neu lesiant.
- Mae aelod yn codi pryder ynghylch rhannu'r gronfa yn seiliedig ar effaith. Mae Catryn yn tynnu sylw at y ffaith mai Nelson fydd yn elwa fwyaf o ryddhau'r asedau'n gynnar; y tu hwnt i hynny, cryfder y cais a sut mae eu gwaith yn mynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol fydd yn bwysig. Mae Eluned yn egluro ymhellach y monitro a'r graddadwyedd i ardaloedd eraill.
- Mae aelod yn chwilfrydig ynghylch y broses o ledaenu'r arian, pwy sydd â'r gair olaf ar sut mae'n cael ei ddosbarthu ar draws yr ardaloedd. Mae Catryn yn ymateb trwy ddweud y gallai fod cap ar y swm sydd ar gael i bob ardal.
- Mae aelod yn cydnabod yr heriau cost byw a phobl ifanc yn mynd i'r ysgol yn llwglyd.
- Mae aelod yn cydnabod bod gan gynghorau cymuned fecanwaith ar gyfer dosbarthu cyllid bach, felly gellid ei ariannu'n gyfatebol trwy'r rhyddhad cynnar.
- Mae GAVO yn rhoi enghraifft o'u cronfa ranbarthol gan y bwrdd iechyd, sy'n cael ei gyrru gan flaenoriaethau'r bwrdd iechyd. Mae'r gallu i matchio arian yn bwysig iawn. Gallai'r cyfle gwerth cymdeithasol ychwanegu at Gronfa Buddiannau Cymunedol a chyllid arall.
- Tynnodd aelod sylw at y ffaith bod angen i'r CLG gytuno ar ddull ar gyfer dosbarthu arian. Un dull gallai fod y 'dull cymunedol cyfannol' a chael pobl i gydweithio fel grŵp ar draws cymunedau. Mae Catryn yn cytuno ar gydweithio ymhlith grwpiau presennol sy'n gweithio tuag at nodau cyffredin.
- Mae Eluned yn tynnu sylw at y ffaith y bydd mecanwaith cymorth i adeiladu prosiectau, er enghraifft, datblygu'r trydydd sector.
- Cwestiwn ynghylch beth yw'r swm lleiaf ac a oes system lle mae prosiectau dros swm penodol yn gofyn am drafodaethau a gallai rhai bach fod yn fwy ystwyth a chael eu penderfynu'n fwy gan nifer lai o bobl.
- Pryder y gall diffyg incwm gwario ar draws y cymunedau a sut y gall pobl ddefnyddio cyfleusterau, fel defnyddio cae 3G a rennir mewn un ardal benodol, fod yn waharddol.
- Mae aelod yn cydnabod, os yw dadleuon yn dod yn elyniaethus, yna mae'r 12 o bobl yn y pobl anghywir.
- Daeth y cyfarfod i ben a diolchodd Eluned i bawb am yr amser a'r cyfraniadau gwerthfawr. Teimlai fod trafodaeth ffrwythlon a chyfeillgar wedi'i chynnal ar ddatblygiad y gronfa budd cymunedol a'r panel lleol. Roedd llawer o waith i'w wneud ond roedden ni'n symud gyda'n gilydd i'r cyfeiriad cywir.

Sesiwn yn cau.

Camau gweithredu::

- Bute Energy i ddosbarthu'r cyflwyniad a ddefnyddiwyd heno.
- Bute Energy i ddarparu rhagor o wybodaeth am y ffigurau economaidd-gymdeithasol a ddefnyddiwyd yn y sleid
<https://teams.microsoft.com/api/mt/emea/beta/users/bee1988a-f198-447b-a67d-ba3ff7210a8d/profilepicturev2/8:orgid:875ea00e-98de-4c26-9a33-3877192dd832?displayname=Michelle%20Byrne&size=HR64x64&avatarETag=1759739467751deck>
- Bute Energy i drefnu taith bws o'r cymunedau cyfagos ar gyfer Gwanwyn 2026.
- Bute Energy i drefnu cyfarfod fel hwn ar gyfer pobl ifanc.
- Bute Energy i ddosbarthu manylion y gwaith mapio cymdeithasol a wnaed hyd yma.
- Bydd Bute Energy yn trefnu gweithdai thematig i lywio datblygiad prosiectau yn yr ardal leol.
- Bydd Bute Energy yn hwyluso cyfle i ymweld â Chroeso i'n Coedwigoedd.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Grŵp Cyswllt Cymunedol ym mis Tachwedd, dyddiad i'w ddosbarthu cyn hir. Cytunwyd i gadw at y slot amser 6pm – 8pm.